# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 12fed 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Geraint Jones Catrin Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Jones.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Mi roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi cael addewid gan y perchennog tir y byddai'n torri'r goeden yn nol rhwng Penbryncoch a Phlas Madog.
ii) Roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i drwsio'r gwli rhwng rhiw Parc a Penbryncoch (Beudy Rhydyrefail).
iii) Roedd Cyngor Gwynedd mewn trafodaeth gyda'r heddlu ynglŷn â'r gor-yrru ar y A4212 a'r B4391 ac wedi comisiynu astudiaeth dichonoldeb i weld beth oedd yr opsiynau am welliannau.
iv) Roedd y gweithlu wedi clirio'r tyfiant/llanast yn y grid gwartheg Tai Hirion ger cyffordd yr B4391/A4212.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Holiadur Cymunedau – ffiniau cymunedau'r sir a'r trefniadau etholiadol. Doedd dim pryderon ar hyn o bryd.

<u>b) Cwmni Pum Plwy Penllyn.</u>
i) Diweddariad.

<u>c) Un Llais Cymru.</u>
i) Canllaw Gweithredu Hinsawdd a Natur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Cytunwyd i'w ddefnyddio wrth adolygu ein Hadroddiad Bioamrywiaeth.
ii) Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2024-25.

<u>ch) Parc Cenedlaethol Eryri.</u>
i) Diweddariad ar feysydd parcio Llyn Tegid a Llangywer.

<u>d) Mabon ap Gwynfor, MS.</u>
i) Cyfarfod i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal – cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd.
ii) Damweiniau ar yr A494. Cofnodwyd cefnogaeth y Cyngor i ymgyrch Mabon ap Gwynfor i amlygu'r broblem gyda Llywodraeth Cymru.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
Doedd dim ceisiadau wedi cael eu cyflwyno.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
<u>a) Praesept.</u>
i) Derbyniwyd yr ail randal o £2250.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol).

c) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd cais gan Cerebral Palsy Cymru. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Llanast ar yr hen safle ailgylchu ger Tyddyn Du a Fron Uchaf.
Er bod y Cyngor Gwynedd wedi hebgor y safle ailgylchu cymunedol a sefydlu casgliadau uniongyrchol o'r tai cyfagos roedd llanast yn dal yn cael ei adael yno. Roedd Swyddog Ailgylchu Cyngor Gwynedd am drefnu i swyddog gorfodaeth ymweld â'r safle.

b) Prosiect Bioamrywiaeth.
Trafodwyd syniadau ar gyfer cydweithio a Chlwb Ffermwyr Ieuanc Maesywaen. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'i arweinwyr a thrafod gydag asiantaethau i gael yr adnoddau perthnasol.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….